*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1313

# Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 4

## DYLETSWYDDAU ASIANTAETH FABWYSIADU O RAN DARPAR FABWYSIADYDD

### Gofyniad i wneud gwiriadau gyda'r heddlu

**23.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael y canlynol —

(a) o ran y darpar fabwysiadydd, tystysgrif record droseddol fanwl yn ôl ystyr adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**) gan gynnwys y materion a bennir yn is-adran (6A) o'r adran honno; a

(b) o ran unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadydd sy'n 18 oed neu drosodd, tystysgrif record droseddol fanwl o dan adran 115 o'r Ddeddf honno gan gynnwys y materion a bennir yn is-adran (6A) o'r adran honno.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu beidio ag ystyried person yn addas i fabwysiadu plentyn neu, yn ôl y digwydd, rhaid iddi ystyried nad yw person bellach yn addas i fabwysiadu plentyn, os yw'r person neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd —

(a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd benodedig a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd; neu

(b) os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad iddo.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "tramgwydd penodedig" yw —

(a) tramgwydd yn erbyn plentyn;

(b) tramgwydd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 3;

(c) tramgwydd yn groes i adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**2**) o ran nwyddau y gwaharddir eu mewnforio o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876 (gwaharddiadau a chyfyngiadau ynghylch pornograffi)(**3**) os oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anweddus o blant o dan 16 oed;

(ch) unrhyw dramgwydd arall sy'n cynnwys anaf corfforol i blentyn, ac eithrio tramgwydd ymosodiad cyffredin neu guro,

ac mae i'r ymadrodd "tramgwydd yn erbyn plentyn" yr ystyr a roddir i "offence against a child" yn adran 26(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000(**4**) ac eithrio nad yw'n

(**1**) 1997 p.50. Diwygiwyd adran 115 gan adran 328 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 19 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, adrannau 90, 103, 104 a 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, adran 152 o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni 21 a 22 iddi, adran 8 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, adran 135 o'r Ddeddf, adran 2 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 ac Atodlen 2 iddi ac adran 115 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

(**2**) 1979 p.2.

(**3**) 1876 p.36.

(**4**) 2000 p.43. Diwygiwyd Atodlen 4 i Ddeddf 2000 gan Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 c. 42.

cynnwys tramgwydd yn groes i adran 9 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 (gweithgaredd rhywiol â phlentyn) mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed a'r plentyn yn 13 oed neu drosodd adeg cyflawni'r tramgwydd.

(4) Ni chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried bod person yn addas i fabwysiadu plentyn neu, yn ôl y digwydd, rhaid iddi ystyried nad yw person bellach yn addas i fabwysiadu plentyn, os yw'r person neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd —

(a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd a bennir ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 3 a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd neu os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad iddo; neu

(b) yn dod o fewn paragraff 2 neu 3 o Ran 2 o Atodlen 3,

er bod y tramgwyddau statudol a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 3 wedi'u diddymu.